



Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar

Meithrinfa Sêr Bach Cyf

**Llys Goferydd
Bryn Parc Cefni
Llangefni
LL77 7XA**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg



Dyddiad Cyhoeddi

10 Ionawr 2019

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:

psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Meithrinfa Sêr Bach wedi'i leoli ar safle Parc Bryn Cefni, Llangefni. Gall y gwasanaeth ddarparu gofal ar gyfer uchafswm o 55 o blant o enedigaeth hyd at wyth oed ac mae ar agor rhwng 7:30am a 6:00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Cheryl Thomas yw'r person cofrestredig a'r person â chyfrifoldeb, gyda Stacey Clutton and Emma Taylor hefyd wedi eu penodi fel personau a chyfrifoldeb. Mae'r gwasanaeth yn un dwyieithog, ond nid yw'r holl ddogfennaeth ysgrifenedig ar gael yn Gymraeg ac felly nid yw'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg yn llawn.

Crynodeb o'n canfyddiadau

1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant sy'n mynychu Meithrinfa Sêr Bach yn blant sy'n hapus ac yn hyderus tu hwnt ac wedi setlo. Maent yn cael budd o gyfoeth o brofiadau gwahanol sy'n hyrwyddo eu datblygiad ac sy'n gwneud eu dyddiau'n llawn hwyl a diddorol. Mae'r staff yn frwdfrydig iawn ac yn ymfalchïo wrth ofalu am y plant yn dda. Caiff yr amgylchedd ei gynllunio'n ofalus o safbwynt plentyn. Mae'r gwaith rheoli risg o safon uchel ac mae digon o adnoddau addas ar gael, sy'n cael eu hadolygu'n barhaus i ennyn diddordeb y plant mewn profiadau gwahanol a newydd. Mae arweinyddiaeth y gwasanaeth yn flaengar gydag arweinwyr ymroddedig ac ymrwymedig.

2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad diwethaf mae'r arweinwyr wedi gwneud y canlynol:

- cyflwyno ystafell chwarae ychwanegol, sy'n cynnig mwy o ofod i'r plant;
- mae'r ardal awyr agored wedi cael ei datblygu gydag adnoddau ychwanegol, sy'n cynnig mwy o brofiadau i'r plant;
- mae'r arweinwyr a'r staff wedi llunio adnodd cynhwysfawr ar gyfer olrhain ac arsylwi ar gynnydd y plant;
- mae sesiynau goruchwyllo ac arfarniadau blynyddol ar gyfer y staff wedi cael eu datblygu, ac maent yn bwrpasol ac yn ystyrlon iawn;
- caiff y staff eu cefnogi i wneud cynnydd a datblygu yn eu rolau.

3. Gofynion ac argymhellion

Ni chyflwynwyd unrhyw ofynion nac argymhellion fel rhan o'r arolygiad hwn.

1. Llesiant

Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn ffynnu mewn amgylchedd gofalgwr ac ysgogol. Maent yn datblygu cydberthnasau ac yn cael budd o'r profiadau ysgogol a gynigir.

Ein canfyddiadau

1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn mynegi eu hunain yn llwyddiannus ac yn gwneud penderfyniadau yn hyderus.

Roedd y plant yn hynod brysur; gwnaethant ddewis o gyfoeth o weithgareddau diddorol, llawn hwyl ac roeddent yn cael eu cefnogi'n dda i gyfarwyddo eu chwarae eu hunain. Er enghraifft, gwnaeth y plant fwynhau eu hamser yn yr ystafell synhwyrdd yn fawr a gwnaethant symud yn hyderus rhwng y ddwy ystafell nesaf at ei gilydd, ac roeddent yn gwybod fod yr holl ofod ar gael iddynt i'w ddefnyddio. Roedd y plant yn gwybod bod y staff yn deall eu hanghenion unigol. Roedd y plant yn cael eu cefnogi'n llawn i rannu sut roeddent yn teimlo â'r staff. Er enghraifft, ysgrifennodd y plant hŷn pan fath o ddiwrnod roeddent wedi'i gael ar eu taflenni gwybodaeth ddyddiol ac roedd y wybodaeth ar gael i'r staff a'r rhieni.

Mae'r plant yn cymryd rhan yn dda yn gyson, cânt eu cymell i fynegi sut maent yn teimlo a chyfrannu at yr hyn y maent eisiau ei wneud.

1.2 I ba raddau mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn gyfarwydd â'r drefn sy'n rhoi ymdeimlad o sicrwydd iddynt.

Roedd y plant yn datblygu ac yn meithrin cyfeillgarwch. Er enghraifft, amser cinio eisteddodd y plant gyda'i gilydd a sgwrsio'n hapus. Roedd y plant yn hyderus y byddai eu teimladau a'u cas bethau yn cael eu hystyried ac aethant at y staff i gael arweiniad a chymorth. Er enghraifft, wrth chwarae yn yr awyr agored gwnaethant ddweud wrth y staff pan roeddent wedi cynhyrfu a rhoddwyd amser ac ystyriaeth iddynt i wneud iddynt deimlo'n gyfforddus ac wedi ymlacio unwaith eto. Mae'r plant yn chwilio am bobl gyfarwydd maent yn gwybod y byddant yn eu helpu a meithrin eu hyder. Rhoddwyd dŵr i'r plant a oedd yn deffro o'u cwsg byr a chawsant eu hannog i gymryd eu hamser i addasu. Roedd llyfrau ar gael iddynt edrych arnynt, a dim ond pan roeddent yn barod i ymgysylltu'n llawn â'r hyn a oedd yn digwydd o'u cwmpas y gwnaethant ddychwelyd i'r prif ystafelloedd chwarae.

Mae'r plant yn profi cydberthynas glos â'r staff, sy'n eu hadnabod i gyd yn dda. Mae'r gofal cynhwysfawr yn galluogi'r plant i ffynnu a thyfu.

1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn dysgu i reoli eu hymddygiad, cydweithredu, cymryd eu tro a rhannu.

Roedd y plant yn rhyngweithio ac yn cyfathrebu'n dda â'r rheini o'u cwmpas, ac roeddent yn cael eu cefnogi i ddelio â newid a siom. Er enghraifft, pan gymerodd plentyn degan oddi wrth blentyn arall, cafodd y ddau eu cefnogi i ddeall nad oedd hyn yn ymddygiad derbyniol. Dychwelwyd y tegan yn hapus a daethpwyd o hyd i degan amgen addas. Roedd y plant yn gallu parhau i chwarae. Mae'r plant yn dechrau deall eu hemosiynau ac emosiynau pobl eraill, ac maent yn dangos cynhesrwydd a charedigrwydd tuag at ei gilydd. Er enghraifft, gwnaethant wahodd y plant eraill i eistedd wrth eu hymyl yn ystod amseroedd bwyd a gwnaethant sgwrsio â'i gilydd.

Mae'r plant yn dod yn sensitif i emosiynau pobl eraill, ac yn dangos parch at eiddo a'r bobl o'u cwmpas.

1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn ffynnu ac yn magu hyder oherwydd gallant archwilio'r ardaloedd chwarae cyfforddus a diddorol sydd ar gael iddynt yn rhydd.

Roedd y plant yn uchel eu cymhelliant ac yn ymgysylltu â'u chwarae, ac maent yn datblygu agweddau cadarnhaol i brofiadau newydd ac yn cynnal eu diddordeb mewn tasgau. Gwelwyd y plant yn mwynhau'r gweithgareddau amrywiol yn yr awyr agored. Gwnaethant baentio'r ffens a mwynhau mynd ar y bws ffug. Gwnaeth y plant fwynhau cyfnodau estynedig o chwarae wedi'u hysgogi gan y plant heb unrhyw darfu arnynt, er enghraifft, gwnaethant symud o amgylch yr ystafelloedd chwarae gan ddewis beth roeddent am ei wneud yn rhydd, cyn i bawb ddod ynghyd ar gyfer stori ar y mat. Canolbwyntiodd a gwrandawodd y plant am gyfnod priodol o amser, a gwnaethant ddangos eu bod wedi bod yn gwrandao'n dda a thalu sylw. Er enghraifft, gwnaethant ateb cwestiynau a rhannu eu barn a defnyddio iaith arwyddion Matakon i adlewyrchu eu teimladau.

Mae'r plant yn ddysgwyr chwilfrydig, maent yn dylanwadu ar y gweithgareddau ac yn canolbwyntio am gyfnod priodol o amser.

1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn hyderus, yn annibynnol ac yn gwneud cynnydd da.

Roedd y plant wedi'u paratoi'n drylwyr ar gyfer trosglwyddo drwy'r ystafelloedd; roeddent yn cael eu cefnogi i ddatblygu a thyfu. Er enghraifft, gwelsom y plant yn treulio cyfnodau o amser mewn ystafelloedd eraill i'w helpu i ymgysylltu â'u hamgylchedd. Mae'r plant yn cael budd o bolisi ymgartrefu trylwyr sydd wedi'i arwain gan y plant; roedd y plant a'r rhieni yn ymweld â'r gwasanaeth cymaint ag yr oedd ei angen i sicrhau bod y plant wedi ymgysylltu ac yn barod i dreulio amser i ffwrdd oddi wrth eu rhieni. Roedd y plant yn gallu cyflawni pethau drostynt eu hunain yn dda; roedd ganddynt sgiliau hunangymorth priodol. Er enghraifft, roedd swm sylweddol o feddwl a chynllunio ar waith yn ystod amser

bwyd. Roedd y plant yn gallu gweini eu hunain yn ystod amser brecwast; roedd sgwpiâu bach ar gael iddynt helpu eu hunain i'w dewis o rawnfwyd. Roedd amseroedd bwyd yn brofiad cymdeithasol, llawn hwyl; roedd platiau o fwyd ar gael yn ystod amser byrbryd, gyda'r plant unwaith eto yn dewis beth roeddent am ei fwyta. Rhoddir blaenoriaeth i ddatblygiad corfforol, a gwelwyd y plant yn treulio amser yn yr awyr agored, lle roeddent yn dawnsio a dringo.

Mae'r plant yn gwneud cynnydd cadarnhaol drwy anogaeth y staff ac o ganlyniad maent yn blant hyderus a hapus.

2. Gofal a Datblygiad

Crynodeb

Mae'r staff yn ymroddedig iawn i'w rolau. Mae cyfrifoldebau a dyletswyddau wedi'u diffinio'n glir a rhoddir blaenoriaeth i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r gweithgareddau wedi'u cynllunio'n dda iawn a rhoddir ystyriaeth i unigoliaeth y plant gan sicrhau eu bod yn cael budd o'u hamser ym Meithrinfa Sêr Bach.

Ein canfyddiadau

2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn ymrwymedig iawn i sicrhau eu bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn llawn.

Mae'r staff yn dilyn arfer cadarnhaol yn systematig i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach bob amser. Roedd y staff yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn llwyddiannus; roeddent yn cefnogi'r plant i fod yn weithgar yn gorfforol, dan do ac yn yr awyr agored. Roeddent yn dilyn gweithdrefnau blaengar yn fanwl mewn perthynas â gofal personol a oedd yn lleihau'r risg o ledaenu heintiau. Roedd dwylo yn cael eu golchi, roedd y cewynnau a newidiwyd a gwybodaeth bwysig yn cael eu cofnodi. Cymhwysodd y staff egwyddorion yr Adnodd Archwilio Rheoli Heintiau yn hyderus. Gwnaethant fonitro'r plant a oedd yn cysgu yn agos, roedd dau aelod o'r staff yn yr ystafell gysgu bob amser a chofnodwyd yr hyn a arsylwyd bob 10 munud. Rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu ac mae'n ategu'r holl ymarfer, ac roedd gan yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth gynhwysfawr o'u cyfrifoldebau.

Mae'r staff yn rhoi gofal rhagorol yn gyson i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn gydwytodol, yn frwdfrydig ac yn gweithredu mewn ffordd gyson.

Roedd y staff yn ymrwymedig tu hwnt wrth roi gofal unigol, gan alluogi'r plant i ddysgu a thyfu. Siaradodd y staff â ni am ddewisiadau unigol a chymau datblygu unigol y plant. Gwnaeth y staff gyfleu dealltwriaeth gynhwysfawr o ddatblygiad y plant a sut mae hyn yn effeithio ar ymddygiad plentyn. Roedd y staff yn cydnabod bod y plant yn cyrraedd cerrig milltir datblygiadol ar gamau gwahanol ac yn rhoi gofal yn unol â hynny. Gwnaeth y staff hyrwyddo ymddygiad da yn gyson a gwneud y disgwyliadau o ran ymddygiad yn glir, ac roeddent yn gyson ac yn deg iawn wrth weithredu; gwranddo ar farn y plant a gwerthfawrogi cyfranogiad y plant yn fawr.

Mae'r staff yn llwyddo i wneud disgwyliadau o ran ymddygiad yn glir, ac mae eu sensitifrwydd a'u brwdfrydedd yn galluogi'r plant i ymgysylltu ag eraill yn llwyddiannus a chyfrannu at yr hyn sy'n digwydd o'u cwmpas.

2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn darparu amgylchedd magwrus a gofalgwr iawn. Maent yn cynllunio amrywiaeth rhagorol o brofiadau chwarae a dysgu.

Mae gan y staff ddisgwyliadau uchel ar gyfer dysgu'r plant ac maent yn mynd yr ail filltir i sicrhau bod y plant yn cael budd o weithgareddau creadigol sydd wedi'u hystyried yn drwyadl. Mae'r holl staff yn cyfrannu at y gwaith o gynllunio o fewn pob ystafell ac roedd gan yr holl weithgareddau amcan clir a fyddai'n hyrwyddo datblygiad, hyder a hunan-barch y plant yn ogystal â darparu ymdeimlad o hwyl a mwynhad. Roedd y staff yn gweithio yn broffesiynol ac roedd ganddynt ddealltwriaeth helaeth o ddatblygiad plant ac roedd adnodd rhagorol wedi cael ei ddatblygu i olrhain a chofnodi arsylwadau ar gynnydd plentyn. Mae'r staff yn sicrhau'n gyson mai'r hyn y gall y plant ei wneud yw'r man cychwyn ar gyfer eu chwarae. Roedd y gweithwyr allweddol a oedd wedi'u neilltuo yn cynllunio'n fanwl ar gyfer anghenion unigol a'r camau nesaf yn nysgu'r plant. Rhannwyd y camau nesaf a nodwyd â'r staff i gyd a'r rhieni, gan alluogi pawb sy'n gofalu am y plant i'w cefnogi'n llawn i gyrraedd eu potensial llawn. Roedd y gwaith cynllunio yn hyblyg ac yn ystyried safbwynt y plant gyda chydbwysedd effeithiol rhwng gweithgareddau a ddewiswyd gan y plant a gweithgareddau dan arweiniad oedolion. Mae dealltwriaeth gydwbybodol ac ymdrech i gefnogi a diwallu anghenion y plant sydd ag anghenion ychwanegol ac mae gweithredu fel tîm yn sicrhau bod y plant yn gwneud cynnydd da.

Mae gan y staff ddisgwyliadau uchel ar gyfer dysgu'r plant; maent yn hyderus ac wedi ymlacio gan sicrhau bod y drefn ddyddiol yn darparu sefydlogrwydd a diogelwch ac yn creu ymdeimlad o hwyl a mwynhad.

3. Yr amgylchedd

Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd ysgogol a diogel sy'n canolbwyntio ar y plant, sy'n rhoi ethos cadarnhaol iddynt ar gyfer chwarae a dysgu. Caiff gweithdrefnau trylwyr a systematig eu dilyn i sicrhau bod y plant yn cael eu cadw'n ddiogel a bod yr adnoddau yn lân ac o ansawdd da.

Ein canfyddiadau

3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn ymwybodol iawn o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a lles y plant.

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd diogel a glân ac roedd y staff i gyd yn cymryd cyfrifoldeb llawn am reoli risg. Roedd yr asesiadau risg yn fanwl, yn gynhwysfawr ac yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Roedd cyfrifoldebau yn cael eu cyfathrebu'n dda i'r rheini a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth. Roedd tasgau dyddiol wedi'u harddangos yn glir ym mhob ystafell chwarae unigol a dywedodd y staff wrthym am eu cyfrifoldebau yn hyderus. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gwybodaeth glir ar gael i bawb am y ffordd yr ymdrinnir ag argyfyngau. Roedd y wybodaeth yn weladwy i bawb yn y brif dderbynfa. Roedd yn hawdd cael gafael ar yr adnoddau angenrheidiol ar gyfer gwacau'r adeilad yn ddiogel, megis bygis. Roedd ymarferion tân wedi cael eu cwblhau gyda chofnod o newidiadau a wnaed pan roedd angen. Mae'r arweinwyr yn sicrhau yn ddiwyd fod y staff yn goruchwyllo'r plant yn dda ac yn deall y gwahaniaeth rhwng risg derbynol ac annerbynol yn llawn, megis eu defnydd o'r cyfarpar dringo.

Mae'r arweinwyr yn drylwyr wrth sicrhau bod y safle yn ddiogel ac maent yn rhoi gweithdrefnau rheoli risg effeithiol ar waith.

3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd wedi'i gynllunio'n dda, yn ystyried y byd o safbwynt y plant ac yn darparu amgylchedd cyfoethog ar gyfer dysgu.

Mae'r amgylchedd yn cael ei ddatblygu'n barhaus er mwyn rhoi cyfleoedd cyfoethog i'r plant ar gyfer chwarae a dysgu. Roedd pob ystafell wedi'i haddurno'n dda ac yn briodol ar gyfer oedran y plant a oedd yn cael gofal ynddynt. Defnyddir y gofod yn hyblyg gyda phob grŵp oedran gan wneud defnydd da o'r holl ofod. Er enghraifft, roedd y cyfarpar dringo dan do a'r adnoddau chwarae meddal ar gael i'r plant i gyd. Mae cynllun yr amgylchedd yn hyrwyddo annibyniaeth y plant. Roedd gweithgareddau diddorol ar gael bob man ond roedd yr arweinwyr hefyd yn darparu mannau cyfforddus i'r plant i ymlacio a myfyrio.

Mae'r amgylchedd yn gynhwysol ac yn groesawgar ac mae'r arweinwyr yn mynd yr ail filltir i sicrhau addasrwydd yr amgylchedd.

3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar o ansawdd?

Mae'r arweinwyr yn darparu amrywiaeth rhagorol o deganau a chyfarpar o ansawdd da sy'n darparu cyfoeth o weithgareddau gwahanol a diddorol i'r plant.

Roedd yr arweinwyr yn darparu cyfarpar ac adnoddau a oedd wedi'u cynllunio'n ofalus er mwyn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd dysgu gwahanol i'r plant. Cyflwynwyd deunyddiau gwahanol a lle y bo'n bosibl mae'r arweinwyr yn defnyddio eitemau naturiol o fywyd go iawn. Mae'r arweinwyr yn flaengar yn eu hymdrechion i sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd, ac maent bob amser yn edrych am ffyrdd newydd i ddatblygu ar yr hyn sydd ar gael. Mae'r arweinwyr yn ddiwyd wrth sicrhau bod y profiadau chwarae sydd ar gael o'r ansawdd gorau. Caiff yr ystafell synhwyrdd ei defnyddio'n dda yn ogystal â'r cyfarpar chwarae meddal a dringo dan do, ac mae'r cyfnod sylfaen ar waith yn llawn ar gyfer y plant cyn-ysgol. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau yn hygyrch i bawb yn gyson, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn newid yr adnoddau rhwng yr holl ystafelloedd yn rheolaidd a phan fo angen gallent wneud cais am eitemau ychwanegol ac roeddent yn hyderus y byddai'r rhain yn cael eu darparu. Roedd y staff yn glanhau'r adnoddau yn ddiwyd ac yn drylwyr gyda chofnod manwl o bryd roedd eitemau wedi cael eu glanhau.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod amrywiaeth rhagorol o adnoddau a chyfarpar ar gael sy'n hyrwyddo chwilfrydedd y plant ac yn gwella eu profiadau a'u datblygiad. Mae'r adnoddau yn ddiddorol ac mae'r plant yn mwynhau eu defnyddio.

4. Arwain a Rheoli

Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn ymrwymedig iawn ac yn cynllunio ac yn darparu gwasanaeth lle mae'r plant yn ffynnu yn frwdfrydig. Mae'r arweinwyr yn gwerthfawrogi'n fawr gyfraniad ac ymroddiad y tîm o staff sy'n cyflawni eu rolau yn hyderus a gyda brwdfrydedd. Mae rhoi gwelliannau parhaus ar waith yn flaenoriaeth ac mae'r arweinwyr yn ymdrechu i sicrhau bod syniadau newydd yn greadigol ac o fudd amlwg i'r plant a'u teuluoedd. Gweithio mewn partneriaeth â'r rhieni yw un o amcanion craidd y gwasanaeth ac mae'r arweinwyr yn ymdrechu'n barhaus i gynnwys y rhieni yn yr hyn sy'n digwydd.

Ein canfyddiadau

4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel yn bwrpasol ac yn datblygu ymdeimlad o ddiben sy'n hyrwyddo ac yn cynnal gwelliannau yn llwyddiannus.

Mae'r arweinwyr wedi'u cymell i arwain a darparu gwasanaeth rhagorol. Mae ganddynt werthoedd cryf a rhoi gofal o ansawdd i'r plant yw sail yr hyn y maent am ei gyflawni. Mae'r arweinwyr yn aml yn mynd yr ail filltir i sefydlu nodau clir a pholisïau sy'n canolbwyntio ar anghenion y plant. Er enghraifft, gwelsom fod yr arweinwyr yn gwerthuso'r hyn mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn rheolaidd, a chaiff ymarfer ei addasu a'i newid i sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu diwallu'n dda. Mae'r arweinwyr wedi sefydlu ethos cadarnhaol iawn lle y caiff y plant a'r staff i gyd eu gwerthfawrogi'n fawr. Gwelsom fod y staff a'r plant yn hyderus i gyfrannu. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn gwneud cyfraniad cadarnhaol, bod rhywun yn gwrando ar eu barn a bod ethos cryf o weithredu fel tîm.

Mae'r arweinyddiaeth yn fanwl i gymell y staff i fod yn amgylchedd magwrus a gofalgwr lle mae'r plant yn hapus, yn awyddus i ddysgu ac yn hyderus.

4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae gwaith hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol yn gynhwysfawr a rhoddir blaenoriaeth iddo heb os.

Mae'r arweinwyr yn rhoi prosesau effeithiol a thrylwyr ar waith i werthuso'r hyn mae'r gwasanaeth yn ei wneud, a sut y gallant wella'r hyn maent yn ei wneud yn rheolaidd. Mae'r adolygiad o ansawdd y gofal yn broses barhaus ac mae'n gynhwysfawr ac yn helaeth, gyda chynllun manwl o'r hyn y mae'r arweinwyr am eu gweithredu. Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r arweinwyr wedi datblygu eu system amlbwrpas ar gyfer olrhain datblygiad y plant ac maent wedi rhoi newidiadau cadarnhaol i'r amgylchedd ar waith. Dangosodd yr arweinwyr ymrwymiad i adolygu ac addasu'r system goruchwylio ac arfarnu blynyddol er mwyn galluogi'r staff i elwa ar y profiad. Mae'r arweinwyr yn mynd ati'n annibynnol ac yn rhoi cynnig ar ffyrdd amrywiol o gasglu barn y rhieni. Mae blog newydd wedi cael ei gyflwyno a

gwelsom dystiolaeth ohonynt yn ymgynghori â'r rhieni yn rheolaidd a sicrhau eu bod yn gwrandao ar eu barn.

Mae'r arweinwyr yn gwerthuso ac yn adolygu'r gwasanaeth yn gyson ac yn rhoi strategaethau cadarn ar waith i sicrhau gwelliannau parhaus er mwyn cyflawni canlyniadau rhagorol i'r plant, y teuluoedd a'r staff.

4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn rhoi lefel uchel gyson o gymorth i'r staff, maent yn gwerthfawrogi gwaith caled y staff ac yn darparu adnoddau rhagorol iddynt i'w galluogi i gyflawni eu rôl.

Mae'r arweinwyr yn weledol ac maent ar gael. Gwnaeth yr arweinwyr gyfleu yn glir yr hyn mae'r gwasanaeth yn ceisio ei gyflawni ac roeddent yn cefnogi'r staff i fod yn flaengar ac roeddent yn gwerthfawrogi'r hyn roedd yr arweinwyr yn ei wneud yn fawr. Mae'r person cofrestredig wedi penodi arweinwyr cymwys a phrofiadol ym mhob ystafell a dywedodd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn mwynhau eu gwaith yn fawr ac yn teimlo eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau'r plant. Mae sesiynau goruchwyllo yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac mae'r arfarniadau blynyddol yn ystyrlon. Mae'r arweinwyr yn awyddus i bob elfen o ymarfer effeithio ar ei gilydd, gan fyfyrwyr ar arfer dyddiol yn rheolaidd a chynllunio sesiynau goruchwyllo yn bwrpasol i sicrhau y caiff y staff eu cefnogi i wneud cynnydd a datblygu yn eu rolau. Er enghraifft, mae'r arweinwyr wrthi'n archwilio ffyrdd iddynt gefnogi'r uwch aelodau o'r staff ymhellach i ddatblygu eu sgiliau arwain. Mae'r arweinwyr yn gwahodd y staff i adrodd yn ôl am y gwasanaeth yn rheolaidd, ac mae hyrwyddo eu llesiant yn egwyddor craidd o'r cymorth maent yn ei gael drwy sesiynau goruchwyllo.

Mae gan yr arweinwyr ddisgwyliadau uchel priodol ohonynt eu hunain a phobl eraill, maent yn gosod targedau realistig ac yn cynnal ymdeimlad o un tîm mawr yn cydweithio.

4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r arweinwyr yn ymrwymedig ac yn ymroddedig i weithio mewn partneriaeth â'r teuluoedd a'r gymuned ehangach.

Gweledigaeth yr arweinwyr o'r gwasanaeth yw lle mae'r gofal a roddir i'r plant yn estyniad o'r hyn y byddent yn ei gael gartref. Mae'r arweinwyr yn ymdrechu i wella llesiant y plant a rhoi gwybodaeth i'r rhieni. Caiff profiadau eu cynllunio'n dda iawn ac mae'r arweinwyr yn ceisio cynnwys y rhieni yn yr hyn sy'n digwydd yn gyson. Mae'r rhieni yn cael y llyfr 'Llyfrau dwylo prysur', casgliad o waith y plant a gwybodaeth fanwl am eu datblygiad a'u cynnydd. Er enghraifft, caiff trosglwyddiadau eu trafod â'r rhieni yn fanwl, anfonir ffurflen gydsynio adref sy'n cynnwys gwybodaeth berthnasol a gwahoddir y rhieni i drafod ymhellach â'r staff. Mewn ymateb i adborth gan y rhieni, mae'r arweinwyr wedi llunio llyfrynnau gwybodaeth sy'n rhoi manylion asiantaethau partner a gwybodaeth ddefnyddiol am sut i gael gafael ar wasanaethau penodol i'r rhieni. Cyhoeddwyd cylchlythyrau yn rheolaidd, ond mae'r staff bellach yn treialu'r defnydd o flog ar y rhyngwyllydd. Mae digon o wybodaeth ar gael yn y brif

dderbynfa. Gall y rhieni weld pwy fydd yn gyfrifol am ofal eu plentyn ar ddiwrnodau penodol a gwybodaeth werthfawr arall, megis y broses i'w dilyn mewn argyfwng. Mae'r arweinwyr wedi hyrwyddo cysylltiadau cadarnhaol â Phrifysgol leol. Mae'r bartneriaeth agos wedi galluogi'r staff i gael budd o hyfforddiant ychwanegol sydd yn ei dro wedi bod o fudd i'r plant a'u rhieni. Roedd digwyddiadau diddorol, llawn hwyl wedi cael eu cynnal a dywedodd pawb y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod wedi mwynhau'r profiad.

Mae'r arweinwyr yn hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth i wella dysgu a llesiant y plant. Maent yn sefydlu ymddiriedaeth a chyfathrebu clir; yn rhoi gwybodaeth dda i'r rhieni ac yn gwerthfawrogi eu cyfraniad yn fawr.

5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol
Dim

5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Ni wnaed unrhyw argymhellion fel rhan o'r arolygiad hwn.

6. Sut y cynhaliwyd yr arolygiad hwn gennym

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau.

Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 24 Hydref 2018 rhwng 09:50am a 5:35pm.

Gwnaethom y canlynol:

- archwilio sampl o ddogfennaeth a pholisïau;
- siarad â'r plant a'r staff;
- darllen holiaduron gan y rhieni;
- edrych ar ffeiliau'r plant a ffeiliau'r staff;
- rhoi adborth manwl.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:

www.arolygiaethgofal.cymru

7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

Y math o ofal a ddarperir	Gofal Dydd Plant Gofal Dydd Llawn
Unigolyn Cyfrifol	Cheryl Thomas
Person â chyfrifoldeb	Cheryl Thomas Stacey Clutton Emma Taylor
Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd	55
Ystod oedran y plant	3 mis i 8 oed
Oriau agor	7:30am – 6:00pm O ddydd Llun i ddydd Gwener
Iaith weithredol y gwasanaeth	Y ddwy
Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	18 Hydref 2016
Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn	24 Hydref 2018
A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?	Nac ydy
A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?	Nac ydy
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Nid yw'r gwasanaeth yn darparu'r 'cynnig rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg yn llawn, er bod y gofal yn cael ei roi yn ddwyieithog, nid yw'r holl ddogfennaeth ysgrifenedig ar gael yn Gymraeg. Mae'r arweinwyr a'r staff wedi dangos ymrwymiad i fod yn wasanaeth hollol dwyieithog yn y dyfodol.
Gwybodaeth Ychwanegol:	